

Gweithio gyda sefyllfaoedd heriol ac aflonyddol mewn gofal preswyl i blant: Rhannu ymarfer effeithiol

Cyflwyniad

Mae'r sector gofal preswyl i blant wedi newid yn ddirfawr ym Mhrydain dros y ddau ddegawd diwethaf a mwy. Mae'r newidiadau hyn wedi digwydd am nifer o resymau, yn cynnwys: cyfres o sgandalau ynghylch camdrin corfforol a rhywiol yn erbyn preswylwyr gan staff; anawsterau denu staff medrus; teimlad bod y sector yn aneffeithiol wrth sicrhau canlyniadau da i bobl ifainc; a chost cymharol uchel darparu gofal preswyl. Yn ystod y cyfnod hwn mae gofal preswyl plant hefyd wedi cael ei scriwtineiddio yn ofalus, yn cynnwys nifer o ymchwiliadau mawr mewn gwahanol rannau o Brydain.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn mae'r sector gofal preswyl wedi lleihau yn fawr, gyda'r nifer o blant y gofelir amdanynt ac a gafodd ofal preswyl wedi lleihau dros yr un cyfnod. Nawr, 11 - 12 y cant o'r plant sydd mewn gofal cyhoeddus yn Lloegr a Gogledd Iwerddon - pobl ifainc yn eu harddegau gan mwyaf - sy'n byw mewn cartref plant. Bydd y rhan fwyaf o'r bobl ifainc hyn wedi cael anawsterau difrifol cyn y cyfnod preswyl. Mae darparu amgylchedd o ofal cynhaliol sy'n ateb gofynion pobl ifainc yn her sylweddol i'r rheiny sy'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau gofal preswyl plant. I wneud hyn yn llwyddiannus mae angen staff medrus a phrofiadol sy'n gallu gweithio gyda, a symbylu, pobl ifainc mewn sefyllfaoedd sy'n gallu bod yn ddigon anodd.

Un peth sy'n achosi pryder yn aml i reolwyr a staff mewn canolfannau preswyl yw 'cadw trefn' - sef delio yn effeithiol gyda sefyllfaoedd heriol sy'n codi mewn cartrefi plant. I drafod y gofid hwn y comisiynodd Y Sefydliad er Rhagoriaeth mewn Gofal Cymdeithaol (SCIE) yr adolygiad gwybodaeth hwn. Nod yr arolwg gwybodaeth yw darganfod yr hyn sydd yn wybyddus ynghylch gweithio'n effeithiol gyda sefyllfaoedd heriol mewn gofal preswyl. Yn fwy penodol, roedd yn bwriadu mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- Beth yw natur a chyd-destun cymdeithasol sefyllfaoedd heriol mewn gofal preswyl i blant, a pha mor aml y maen nhw'n codi?
- Beth yw achosion posibl ac effeithiau'r sefyllfaoedd hyn?
- Pa bobl ifainc a staff sydd ynghlwm wrth, yn gynwysiedig yn, ac sydd yn

- cael eu heffeithio gan y sefyllfaoedd hyn?
- Beth sy'n hybu ymarfer effeithiol wrth ddelio gyda'r sefyllfaoedd heriol hyn?

Methodoleg

Roedd yr adolygiad gwybodaeth yn cynnwys adolygiad ymchwil ac arlong ymarfer ac fe'i cyflawnwyd gan dîm o dri sefydliad: Prifysol Queen's Belfast (QUB), Prifysgol Bryste (UoB) a'r Ganolfan Blant Genedlaethol (NCB). QUB oedd yn cydlynu'r prosiect, ac yn gyfrifol am yr adolygiad ymarfer ar y cyd gyda'r NCB. Y tîm o Fryste oedd yn gyfrifol am yr adolygiad ymchwil. Sefydlwyd dau grwp cynghori i ddarparu canllawiau a chefnogaeth. Roedd un o'r rhain yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o'r maes gofal preswyl i blant. Roedd y llall yn cynnwys pobol ifainc â phrofiad o ofal cymdeithasol. Wrth ymgynghori gyda'r grwp cynghori o weithwyr gofal preswyl cytunwyd y dylai'r adolygiad ymchwil gael ffocws rhyngwladol, gyda'r arlong ymarfer yn canolbwyntio ar Ogledd Iwerddon, gyda gwybodaeth gyfredol o Loegr yn rhoi cyd-destun.

Roedd yr adolygiad ymchwil yn dilyn canllawiau adolygiadau ymchwil systemaidd mewn ymarfer gofal cymdeithasol. Dilynwyd canllawiau SCIE ar gyfer adolygiadau gwybodaeth systemiadd (SCIE,2003) a chyflogwyd Ian Sinclair, Prifysgol Efrog, fel ymgynghorydd i ddarparu cyngor cyffredinol ac i wneud sylwadau ar adroddiadau drafft. Drwy gydol yr astudiaeth, cytunwyd ar ei chwmpas, cynllun a methodoleg gyda'r grwp cynghori o weithwyr proffesiynol a SCIE. Yn y cyd-destun hwn, bu llawer o drafod ar ystyr a diffiniad y term 'ymddygiad heriol' a daeth yn glir bod sefyllfaoedd oedd yn arwain at ymddygiad 'gwrth-gymdeithasol' ac 'aflonyddol' yn rhagorach ddisgrifiad ar gyfer yr adolygiad ymchwil.

Roedd y broses adolygu systemig ei hun yn cynnwys chwilio 18 o fasus data yn electronig yn ogystal â chwilio gyda llaw. Daeth 19,000 o gyhoeddiadau i law drwy'r broses chwilio i gychwyn; ar ôl anwybyddu amryw gyferiadau at yr un cyhoeddiadau, tua 10,000 o gyhoeddiadau unigryw 'ddaeth i'r fei. Sgrîniwyd teitlau a chrynodebau y cyhoeddiadau hyn yn ôl perthnasedd, a thrwy'r broses sgrînio hon dilëwyd dros 9,000 o'r cyhoeddiadau o'r adolygiad. O'r rhai oedd yn weddill, defnyddiwyd canllawiau manwl i benderfynu a ddylid eu cynnwys yn yr adolygiad ai peidio, wrth ddarllen y cyhoeddiadau yn llawn. Pendraw'r prosesau hyn oedd cynnwys 62 o gyhoeddiadau i'w hastudio. Aed ati wedyn i werthuso ansawdd y cyhoeddiadau a'r data a oedd yn gynwysiedig ynddynt. O fewn y terfynau hyn, cafwyd hyd i 34 yn unig o gyhoeddiadau, o 33 astudiaeth dros gyfnod o 20 mlynedd, oedd yn ddigon dibynadwy i'w cynnwys yn yr adolygiad gwybodaeth.

Crybwyllwyd yn y ddogfen dendro y dylai'r arlong ymarfer ganolbwyntio ar

Ogledd Iwerddon, lle roedd ymchwil yn brin. Mae gofal preswyl i blant yng Ngogledd Iwerddon, fel gweddill Prydain, wedi newid yn sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae datblygiadau deddfwriaethol a pholisi wedi mynd law yn llaw â'r newidiadau hyn. Mae'r canlynol wedi bod yn ddatblygiadau allweddol: *Children (NI) Order (1995)* (DHSSPS, 1996), yr adroddiad ar ofal preswyl yng Ngogledd Iwerddon *Children Matter*, (DHSS, 1998) a'r Gweithgor Children Matter a ddaeth yn ei sgîl (DHSSPS, 2001) ac yn fwy diweddar *Care Matters in Northern Ireland: A bridge to a better future* (DHSSPS, 2007). Mae'r dogfennau hyn wedi arwain at newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn meddwl ac at sefyllfa lle mae gofal preswyl i blant yn cael ei weld fel rhan ganolog o'r system les ehangach i blant.

Casglwyd gwybodaeth o ffynonellau amrywiol ar gyfer yr arolwg ymarfer, yn cynnwys dehongli dogfennau polisi, ymarfer mapio sefyllfaoedd heriol mewn gofal preswyl i blant yng Ngogledd Iwerddon, cyfweiliadau a grwpiau ffocws gydag amrediad eang o bobl yn cynrychioli pawb oedd â chanddynt ddiddordeb mewn gofal preswyl i blant a phobl oedd yn gallu darparu gwybodaeth gyddestunol o Loegr. Er mwyn sicrhau fod barn staff gofal preswyl a phobl ifanc yn cael ei chynnwys, gwahoddwyd pump o gartrefi plant i'r arolwg ymarfer, ac fe gyfrannodd pob un ohonynt. Dewiswyd y cartrefi ar ôl trafod gydag RQIA. Dewiswyd rheolwyr Bwrdd oedd yn cynrychioli ardaloedd oedd â nifer uchel o sefyllfaoedd heriol neu lle roedd ffyrdd blaengar o weithio gyda sefyllfaoedd heriol yn cael eu defnyddio.

Cyfrannodd naw aelod o staff uwch llywodraeth, Byrddau ac Ymddiriedolaethau gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, pedwar aelod o staff RQIA, 16 o reolwyr unedau gofal preswyl i blant, 33 aelod o staff cartrefi preswyl i blant a 18 person ifanc o'r un cartrefi at yr arolwg ymarfer.

Canfyddiadau

Mae'r canfyddiadau o'r adolygiad ymchwil a'r arolwg ymarfer yn cyd-fynd yn y bôn, er bod rhai gwahaniaethau, oherwydd y gwahaniaethau mewn pwyslais a dull o bosib. Roedd yr adolygiad ymchwil yn adrodd ar lenyddiaeth oedd yn cwrdd â chanllawiau manwl iawn ac yn cynnwys nifer o fethodolegau ymchwil gwahanol. Roedd yr arolwg ymarfer, ar y llaw arall, yn astudiaeth ansoddol oedd am ganfod barn benodol cyfranwyr ar achosion sefyllfaoedd heriol a sut i'w trin, ac felly yn oddrychol ei natur. Gall fod hyn wedi arwain at arlliw mwy negyddol i'r arolwg ymarfer a mwy o bwyslais ar fathau mwy ymosodol o ymddygiad heriol. Crybwyllwyd hefyd yn yr adolygiad ymchwil fod prinder amlwg o ddeunyddiau, yn enwedig deunyddiau oedd yn ymdrin â, ac yn gwerthuso, ymatebion i'r sefyllfaoedd hyn ac astudiaethau trwyadl ar ymarfer da.

Roedd dwy elfen yr adolygiad gwybodaeth gyda'i gilydd yn darparu darlun cynhwysfawr o'r amrywiaeth enfawr o fathau o sefyllfaoedd heriol sy'n digwydd

mewn gofal preswyl a'r amrywiaeth o ffactorau sydd ynghlwm wrthynt. Maen nhw hefyd yn adlewyrchu'r amrywiaeth o ffyrdd yr ymdrinir â sefyllfaoedd heriol. Mae'r arolwg ymarfer, yn enwedig, yn darparu enghreifftiau o'r barnau gwahanol sydd gan randdeiliaid ynghylch ymarfer da ac effeithiol. Dylid, fodd bynnag, nodi cyn lleied o dystiolaeth gref sydd ar gael ynghylch pa mor effeithiol y mae gwahanol fathau o ymatebion i sefyllfaoedd heriol. Mae llawer o'r dystiolaeth yn dibynnu ar farn a mympwy, yn hytrach na thystiolaeth 'galed'. O gymryd y ddwy agwedd o'r adolygiad gwybodaeth gyda'i gilydd, serch hynny, mae yn dangos tystiolaeth fod rhai agweddau ar nodweddion staff a dulliau gweithio o fewn gofal preswyl i blant yn fwy effeithiol na'i gilydd wrth leihau problemau ymddygiad a bod yn gyffredinol fanteisiol i breswylwyr.

Sefyllfaoedd heriol a'r hyn 'all arwain atynt

Mae'r adolygiad ymchwil a'r arolwg ymarfer yn disgrifio nifer o fathau gwahanol o ymddygiad a all fod yn heriol - o herian a diffyg cydweithrediad i drais yn erbyn staff, cyd-breswylwyr neu'r hunan. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, fod yr adolygiad ymchwil yn dangos nad yw'r mwyafrif o breswylwyr yn ymddwyn yn heriol tuag at staff. Nid yw'r rhan fwyaf o gartrefi yn cael eu haflonyddu yn gyson. Mae rhywbeth o'i le os oes cartref yn dioddef hyn yn gyson. Nid yw'r rhan fwyaf o breswylwyr yn gwrthod mynd i'r ysgol, er ei bod yn ymddangos fod twf yn y nifer o breswylwyr sy'n ffoi o gartrefi. Mae problemau penodol gyda gwasanaethau tan glo oherwydd natur yr amgylchedd ac amgylchiadau'r pobl ifainc sydd dan glo. Mae'n bwysig nodi bod tystiolaeth nad oes perthynas rhwng problemau ymddygiad a'r math/ nifer o bobl ifainc sy'n dod i unrhyw gartref preswyl penodol. Mae rhai cartrefi yn llwyddo'n dda gyda phobl ifainc heriol iawn, a'r gwrthwyneb hefyd yn wir.

Mae ymddygiad treisgar difrifol yn brin, er mai dyma'r ymddygiad a ddisgrifiwyd amlaf fel yr un mwyaf heriol, yn enwedig trais yn erbyn staff. Mae trais, a gofidio am drais, yn peri straen a phryder ar bob lefel. Roedd delio gydag ymddygiad peryglus, fel ffoi o gartrefi neu ddefnyddio alcohol neu gyffuriau, hefyd yn peri pryder i staff, oherwydd ansicrwydd ynghylch eu rôle. Roedd mathau eraill o ymddygiad, fel herian cyson a diffyg cydweithrediad, yn cael eu crybwyll yn aml gan staff. Doedd hyn, fodd bynnag, ddim fel petae'n peri cymaint o ofid a straen.

Roedd y ddwy elfen o'r adolygiad gwybodaeth yn disgrifio llawer iawn o ffactorau sy'n arwain at ymddygiad heriol. Roedd ffactorau ynghlwm wrth bersonoliaethau a phrofiadau preswylwyr unigol yn ffactor gyson. Felly hefyd gyda phersonoliaethau a phrofiadau aelodau staff unigol. Yn yr adolygiad ymchwil y soniwyd amlaf am bersonoliaethau aelodau unigol o staff, fodd bynnag.

Roedd ffactorau eraill sy'n arwain at ymddygiad heriol yn cynnwys yr amgylchedd yr oedd y pobol ifainc yn byw ynnddi, a deinamig grwp. Roedd hiarchiaeth o fewn grwpiau a dylanwad pobl ifainc eraill yn ffactorau y cyfeiriwyd atynt yn gyson fel rhai oedd yn gallu arwain at ymddygiad aflonyddol a thrais yn erbyn cyd-

breswylwyr.

Roedd y posibilrwydd o wrthdaro rhwng preswylwyr yn gwaethygu pan fo newydd-ddyfodiaid yn dod i'w plith. Yn yr arolwg ymarfer daeth ffactorau sy'n benodol i Ogledd Iwerddon i'r amlwg, yn cynnwys defnydd ffônau symudol, enwadaeth a pharafilwriaeth.

Soniwyd am ffactorau yn ymwneud â'r system yn gyson yn yr arolwg ymarfer, er yn llai aml yn yr adolygiad ymchwil. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys anawsterau gan gartrefi i weithredu yn unol â'u Datganiad Pwrpas am nifer o resymau, fel prinder llefydd i bobol ifainc a'r pwysedd ar reolwyr i roi llefydd argyfwng. Roedd y rhain, yn eu tro, yn effeithio ar ddeinamig grwp ac yn aflonyddol i bawb. Roedd materion eraill yn ymwneud â'r system yn cynnwys y broses adolygu i blant y gofelir amdanynt, cyswllt gyda theuluoedd, natur sefydliadol rhai catrefi a rheolau a rheoleiddiadau llym - y soniwd amdanynt yn gyson gan y bobl ifainc.

Ymateb i sefyllfaoedd heriol

Y neges gliriaf a ddaw o'r adolygiad gwybodaeth yw'r effaith y mae rhai nodweddion staff a dulliau gweithio yn gallu ei chael ar reoli sefyllfaoedd heriol yn effeithiol. Awgrymwyd gan bobol ifainc ac oedolion mai dim ond staff sy'n gallu dangos eu bod yn ymrwymedig i bobol ifainc, yn gwrando arnynt, eu deall a'u parchu ac sy'n gallu adeiladu perthynas, sy'n gallu rheoli sefyllfaoedd heriol ac felly liniaru sefyllfaoedd aflonyddol. Does dim byd newydd yn hyn, ac mae'r farn hon i'w chlywed yn aml yn y llenyddiaeth ymarfer. Y dasg bwysig nawr yw edrych yn fanwl ar y manylion ac o hynny, ddehongli ffyrdd o'u gwireddu.

Yn ogystal â'r angen i adeiladu perthnasau crybwyllwyd yn aml hefyd yr angen am waith tîm effeithiol. Roedd cyfranwyr yr arolwg ymarfer o bosibl o'r farn fod hyn yr un mor bwysig â'r angen am berthnasau da. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am gysondeb, polisïau a gweithdrefnau clir, cyfarfodydd tîm cyson, goruwchwylliaeth, cyfleodd datblygu tîm a chyfleodd i drafod sefyllfaoedd heriol wrth iddynt godi. Soniwyd hefyd am ffyrdd eraill o fagu'r cysyniad o dîm, yn cynnwys: mwy o ffocws wrth hyfforddi a chefnogi staff, cyflogi mwy o staff, cyflogi gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi staff. Ychydig o dystiolaeth a ddaeth i'r fei yn yr adolygiad ymchwil, fodd bynnag, i awgrymu y byddai hyn ynnddo'i hun yn gwella effeithiolrwydd. Nodwyd pwysigrwydd cynyddu morale staff a'u gwydnwch, a'u pwysigrwydd wrth ddatblygu ymarfer da mewn gofal preswyl.

Mae ymddygiad heriol fel petae'n digwydd gyda'r nos neu yn ystod y nos gan amlaf. Byddai lefelau a phatrymau staffio, a strategaethau ac adnoddau eraill yn egluro hyn. Mae'n ymddangos nad yw staff yn talu digon o sylw i wybodaeth sydd eisoes ar gael wrth geisio deall ac ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Dylai ymatebion fod yn llai adweithiol. Mae cosbi drwy osod sancsiynau yn wrth-gynhyrchiol pan fo pobl ifainc yn dychwelyd wedi ffoi o

gartrefi preswyl.

Soniwyd hefyd yn yr arolwg ymarfer am strategaethau eraill sydd wedi cael eu datblygu i geisio mynd i'r afael ag ymddygiad heriol cyn iddo ddigwydd. Roedd y strategaethau hyn yn cynnwys: (i) ymwneud ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill, gweithio gyda gwasanaethau pobl ifainc o'r sector wirfoddol, er enghraifft, neu weithio gyda seicolegwyr clinigol fel ymgynghorwyr, a (ii) gwasanaethau allanol i deuluoedd a chymunedau. Roedd y rhain yn cynnwys trefniadau gofal ar y cyd a gweithio'n benodol gyda phobl ifainc a theuluoedd ar faterion allweddol - fel diffyg presenoldeb ysgol ac anghydfodau teuluoeddi/teuluoedd gofal - yn ogystal â gweithio'n benodol ac yn uniongyrchol gyda chymunedau lleol i integreiddio pobl ifainc i fywyd y gymuned.

Crybwyllwyd yn yr arolwg ymarfer nifer o fathau eraill o ymateb penodol i ymddygiad heriol. Soniwyd amlaf am ymyrraeth argyfwng therapiwtig (therapeutic crisis intervention, TCI). Nid yw hyn yn syndod o gofio bod hyfforddiant TCI wedi ei gyflwyno i'r pedair ardal Bwrdd sydd yng Ngogledd Iwerddon. Roedd systemau penodol eraill a grybwyllwyd yn yr arolwg ymarfer yn cynnwys adferiad, atal, cyfeirio at yr heddlu, defnyddio'r system gyfiawnder pobl ifainc, cyfeirio at lety tan glo a gwrthod mynediad i newydd-ddyfodiaid pan fo sefyllfa o ymddygiad eithafol yn digwydd mewn uned. Roedd defnyddio'r uchod yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yn y fan a'r lle, ac fe'u disgrifiwyd fel anghyson eu llwyddiant.

Byddai gwerthusiad manwl o'r holl strategaethau hyn o fudd mawr wrth adnbaod eu gwerth mewn sefyllfaoedd gofal preswyl. Mae'r angen am ymchwil werthusol fel hyn, fodd bynnag, yn arbennig o wir am TCI, sydd wedi ei fabwysiadu mewn llawer o gartrefi plant yng Ngogledd Iwerddon, ac sydd wedi ei werthuso'n drwyadl ddwywaith yn unig, gan ddod i gasgliadau cymysg.

Goblygiadau ar gyfer ymarfer effeithiol

O adolygu'r dystiolaeth oedd ar gael i'r adolygiad gwybodaeth hwn, daw'n amlwg fod goblygiadau difrifol i bedair prif ardal. Fe'u cyflwynir yma, o dan y penawdau hyn:

- deall gofal preswyl fel gwasanaeth
- cael y casgliad 'cywir' o staff
- ennyn diddordeb pobl ifainc
- creu'r sylfaen wybodaeth.

Mae'r rhain yn cael eu disgrifio mewn manylder isod.

Deall gofal preswyl fel gwasanaeth

Hanfod gofal preswyl yw byw o fewn grwp. Nid yw'n syndod, felly, mai rheoli perthnasau cyd-breswylwyr a deinamig grwp yw'r neges gliriaf a ddaw o'r ymchwil. Roedd pawb yn gweld hyn fel prif achos sefyllfaoedd heriol ac aflonyddol, a bod cynnal trefn dda yn dibynnu ar reoli'r perthnasau hyn yn effeithiol. Mae maint a chyfansoddiad y grwpiau hyn yn ystyriaethau pwysig (ynghyd â pherthynas gyda staff, a drafodir yn hwyrach), a sut maen nhw'n gweddu i bwrpas yr uned. Goblygiadau hyn ar ymarfer effeithiol yw:

- angen am sector breswyl sy'n cynnig amrediad o opsiynau, gydag unedau yn gwahaniaethu'n glir rhwng anghenion ac yn deall eu rôle o fewn y continuwm gofal
- uwch reolwyr yn glynu at y Datganiad Pwrpas cydnabyddiedig. Gellid hwyluso hyn drwy gael opsiynau gwahanol i ddelio gyda mynediadau brys, fel maethu arbenigol er enghraifft
- rheolwyr uned yn rheoli'n llymach dros fynediadau i unedau, er mwyn cael amser i ystyried yr effaith y byddai mynediadau gan newydd-ddyfodiaid yn ei chael ar y preswylwyr a deinamig y grwp
- angen am unedau llai, llai na chwe pherson yn ddelfrydol, 'fyddai yn gallu lleihau'r peryg o wrthdaro rhwng cyd-breswylwyr ac yn galluogi staff i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar anghenion unigolion
- dealltwriaeth gliriach a llawnach gan bawb, gan gynnwys pobl ifainc, o bolisi a gweithrediadau.

Cael y casgliad 'cywir' o staff

Bydd y rhan fwyaf o bobl ifainc sy'n cyrraedd canolfannau preswyl wedi cael anwasterau sylweddol yn y gorffennol a bydd ganddynt anghenion amrywiol iawn. Mae darparu amgylchedd gynhaliol sy'n cwrdd ag anghenion pob person ifanc yn gallu bod yn sialens. Mae llwyddiant yn dibynnu ar gael y staff 'cywir', gan gynnwys rheolwyr effeithiol. Mae'r adolygiad gwybodaeth hwn yn darparu canllaw i ystyr y term 'staff cywir':

- Yr hyn sydd ei angen yn bennaf yw staff sy'n meddu ar y medrau, nodweddion, agweddau ac ysgogiad i allu uniaethu â phobl ifainc ac adeiladu perthnasau cadarnhaol gyda nhw. Efallai na fydd recriwtio staff sydd â chymhwysterau a phrofiad yn ddigon. Un ffordd o fesur addasrwydd staff yw cynnwys pobl ifainc yn y broses recriwtio ac asesu.
- Mae'r astudiaeth yn codi cwestiynau ynghylch defnyddioldeb cymhwysterau cyfredol, yn enwedig y sylw prin a roddir i ofal preswyl o fewn hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch gor-ddibyniaeth ar staff dros dro wrth sicrhau fod lefelau staffio yn cael eu cyrraedd. Mae hyn yn ansefydlogi pobl ifainc ac nid yw'n hwb i ddatblygu perthnasau cadarnhaol.
- Mae angen i'r tîm staff gynnwys amrediad o weithwyr proffesiynol, fel gweithwyr ieuencid a chymuned, yn ogystal â gweithwyr â phrofiad mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden a gweithwyr cymdeithasol

preswyl. Hefyd, os nad yw'r medrau ar gael o fewn y tîm, dylid bod ganddynt ffordd hawdd i alw ar gymorth allanol er mwyn cwrdd â holl anghenion cymhleth pobl ifainc mewn gofal preswyl.

- Dylid ystyried gwneud mwy o waith allanol, yn defnyddio staff preswyl neu gymysgedd o bobl â medrau cymysg: gall hyn roi amser a chyfle i staff i ymgymryd â darnau penodol o waith gyda phobl ifainc a'u teuluoedd.
- Mae angen i staff fod ar gael ar yr adegau cywir, sy'n adlewyrchu anghenion y preswylwyr. Mae'r ymchwil yn dangos fod sefyllfaoedd heriol ac aflonyddol yn dueddol o ddigwydd gyda'r nos neu yn ystod y nos. Mae gan hyn oblygiadau i amserlenni staff ac mae'n codi cwestiynau ynghylch rôle staff nos.
- Mae cynnal trefn dda o fewn unedau yn galw am reolwyr cymwys. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth addas i staff, eglurder wrth bennu a chynnal rheolau a gweithrediadau, ac adeiladu a chynnal gwaith tîm cryf.

Ennyn diddordeb pobl ifainc

Mae pwysigrwydd y berthynas rhwng staff a phobl ifainc yn thema ganolog i'r astudiaeth hon. Mae dwy wedd i'r thema hon: y ffordd y mae staff yn gweithio gydag unigolion ifainc a'r grwp o breswylwyr ifainc; a'r graddau y mae'r pobl ifainc yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng ngweithrediad yr uned.

Roedd y bobl ifainc y daethom ni ar eu traws yn cymeradwyo'r canfyddiad mai yr hyn sy'n dynodi staff medrus yw eu gallu i ddeall pobl ifainc ac felly ragdybio sefyllfaoedd anodd, rhai sy'n gyson a digyffro, rhai sy'n gallu ymdawelu sefyllfaoedd anodd, rhai sy'n gwybod sut i atal pobl ifainc yn addas yn gorfforol, sy'n gwrando ar bobl ifainc, yn ymddiddori ynddynt, yn cyfrannu at weithgareddau gyda nhw ac sy ddim yn chwarae gêmâu pwer neu yn dadlau yn gyson ar lafar gyda nhw.

Nid yw'r neges hon yn un newydd. Yr her i ymarferwyr yw ystyried sut gellir troi'r neges yn realiti wrth ymarfer: drwy'r broses recriwtio a dethol, drwy hyfforddiant a thrwy ddefnyddio barn pobl ifainc yn amlach.

Mae staff yn debygol o gael perthynas gadarnhaol gyda phobl ifainc pan fo diwylliant o gyfranogaeth gan bobl ifainc mewn uned, fel bod cynnwys pobl ifainc yn rhan ganolog o'r ffordd y mae uned yn gweithredu - wrth lunio rheolau a rheoleiddiadau, er enghraifft, drwy leisio barn ar wobrwyon a sancsiynau a chyfrannu at goginio ac agweddau eraill ar waith cynnal a chadw uned.

Creu'r sylfaen wybodaeth

Er bod y sector gofal preswyl wedi cael ei sgrwneiddio yn helaeth dros y blynyddoedd diwethaf, mae prinder ymchwil trwyadl ar ddulliau ymyrryd mewn gofal preswyl o hyd. Tanlinellodd yr astudiaeth hon nifer o feysydd penodol lle mae angen mwy o waith:

- Mapio'r sefyllfaoedd heriol ac aflonyddol. Er gwaethaf ymdrechion glew tîm yr arolwg ymarfer nid oedd yn bosibl sefydlu asesiad dibynadwy o amllder y sefyllfaoedd hyn yng Ngogledd Iwerddon, nac yn unrhyw le arall. Heb hyn, mae unrhyw drafodaeth ar y mater yn dibynnu ar ddyfalu'r lefel o drais a sefyllfaoedd heriol eraill. Mae angen mecanwaith seml ond cyson i gofnodi'r sefyllfaoedd hyn.
- Darganfu'r adolygiad gwybodaeth mai ychydig yn unig o werthusiadau trylwyr o ymyriadau mewn gofal preswyl sydd wedi eu cynnal a bod bwlch amlwg yn y wybodaeth sydd ar gael. Gan fod cynifer o unedau yng Ngogledd Iwerddon yn defnyddio dulliau TCI mae'n gwbl angenrheidiol cynnal gwerthusiad trwyadl o'u heffeithiolrwydd. Byddai hyn yn galluogi ymarferwyr i adnabod pa ddulliau ymyrryd sy'n fwyaf gwerthfawr a pha rai y dylid eu datblygu.
- Ymatebodd y rheiny sy'n gweithio mewn gofal preswyl yn gadarnhaol iawn i'r astudiaeth hon; roedden nhw'n tynnu sylw at werth cael eu cynnwys mewn proses fel hon a bod ystyried a rhannu ymarfer ar draws y sector hefyd yn werthfawr iawn. Dyild manteisio i'r eithaf ar y parodrwydd hwn i gyfrannu a'i ddefnyddio i wella ansawdd gofal preswyl i blant.

Casgliadau

Mae enghreifftiau o drais difrifol mewn gofal preswyl i blant yn brin: yn hytrach mae ymdeimlad o ymddygiad anghydweithredol, heriol, lefel-isel cyson - a allai dyfu'n sefyllfaoedd mwy heriol os nad ymdrinir ag ef yn effeithiol. Mae amrywiaeth fawr rhwng cartrefi, a'u gallu i reoli sefyllfaoedd heriol. Y prif ddyllanwad ar hyn yw natur a sefydlogrwydd y grwp o breswylwyr ac ansawdd y tîm staff. Yn ogystal, roedd rhai cartrefi yn fwy goddefgar na'i gilydd o ymddygiad heriol ac yn ymdrechu'n deg i ddeall cyd-destun yr ymddygiad heriol. Yn nodedig yn hyn oll oedd y gallu i ganolbwytnio ar anghenion y bobl ifainc, fel unigolion ac fel grwp.

Nodwyd llawer o strategaethau oedd yn effeithiol wrth reoli sefyllfaoedd heriol ar hyd a lled y ddarpariaeth yng Ngogledd Iwerddon. Heb os, fodd bynnag, mae agweddau ar ymarfer sydd angen eu datblygu, er mwyn galluogi staff i ddal i wella a datblygu'r ymarfer effeithiol hwn. Mae adeiladu a chynnal perthynas gadarnhaol gyda, a rhwng, pobl ifainc o'r pwys mwyaf. Mae ar faterion yn ymwneud â'r system angen ystyriaeth hefyd, megis yr angen am amrediad helaethach o opsiynau llety er mwyn helpu unedau i gadw at eu Datganiad Pwrpas a pholisïau mynediad. Mae'r ffactorau hyn yn aml y tu hwnt i reolaeth cartrefi ungiol ac maent ymhlith yr argymhellion a nodir yn y ddogfen ymgynghorol ddiweddar *Care Matters in Northern Ireland: A bridge to a better future* (DHSSPS, 2007). Mae angen gweithredu ar y rhain ar frys os ydym o ddifrif ynghylch cynnig cartrefi o ansawdd uchel a chyfoethogi bywydau plant sydd mewn gofal preswyl.

Cyfeiriadau

SCIE (Social Care Institute for Excellence) (2003) *Guidelines for preparing a research review*, London: SCIE.

Department of Health, Social Services and Personal Safety (DHSSPS) (1996) *Children (NI) Order 1995*, Belfast. The Stationery Office.

DHSS (Department of Health and Social Services) (1998) *Children Matter: A review of residential child care services in Northern Ireland*, Belfast: The Stationery Office.

DHSSPS (Department of Health, Social Services and Personal Safety) (2001) *Report of the Children Matter Task Force: Phase 1 – 2001 to 2003*, Belfast: DHSSPS.

DHSSPS (Department of Health, Social Services and Personal Safety) (2007) *Care Matters in Northern Ireland: A bridge to a better future*, Belfast: DHSSPS.

Social Care Institute for Excellence Goldings House, 2 Hay's Lane London SE1
2HB
Ffôn 020 7089 6840 ffacs 020 7089 6841 Ffôn Testun 020 7089 6893
www.scie.org.uk

Elusen Gofrestredig rhif 1092778 Cwmni cofrestredig rhif 4289790